

HOWELL, WILLIAM (1740 - 1822), gweinidog Ariaidd ac athro coleg

Enw: William Howell
Dyddiad geni: 1740
Dyddiad marw: 1822
Rhiant: William Howell
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Ariaidd ac athro coleg
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Thomas Oswald Williams

Ganwyd yn Wincanton, Gwlad yr Haf, 1740, mab y Parch. William Howell, Birmingham. Fe'i haddysgwyd gan ei dad, a chan [Jenkin Jenkins](#), Llanfyllin. Yn ystod 1759-60 yr oedd yn academi Warrington, ac yn 1760-4 yng Ngholeg Caerfyrddin. Yr oedd, yn ôl y *Cofiant*, yn gyd-efrydydd â '[Dafis Castellhywel](#).' Bu am beth amser ar y Cyfandir ac yn gofalu am eglwys Seisnig yn Amsterdam. Wedi dychwelyd bugeiliodd eglwys Chelwood gerllaw Bryste (1771-86). Oddi yno fe'i galwyd yn 1786 i fugeilio eglwys Bresbyteraidd Abertawe, ac yn brifathro'r coleg. Bu'n brifathro am naw mlynedd hyd ganol haf 1795, pan fu ymrafael rhyngtho â'i gyd-athro, [John Jones](#). Maentumir fod gan yr is-athro dymer ddi-lywodraeth, a chaewyd y coleg dros dro. Nid ydoedd yn flaengar ei syniadau er dywedyd ei fod yn Ariad. Yn 1813 ymddiswyddodd oherwydd dallineb, ond cynigiwyd cydweinig iddo. Derbyniodd yntau'r cynnig ond anghytunwyd ar y dewis. Bu rhwyg yn yr eglwys, ac ymadawodd Howell a'i ganlynwyr, a sefydlwyd eglwys Gynulleidfaol Castle Street; agorwyd y capel newydd yn Rhagfyr 1814. Ni bu yn weinidog yma ond ymunodd â'r eglwys. Cododd yr ymrafael oherwydd gwrthod ohono gerdded rhagddo i Undodiaeth fel y gwnaeth Richard Aubrey, ei olynnydd, a dyna, ond odid, a esbonia y 'rugged church business' fel y'i gelwir. Bu farw 21 Mehefin 1822 a chladdwyd ef ym mynwent capel Presbyteraidd High Street, Abertawe.

Awdur

Y Parchedig Thomas Oswald Williams, (1888 - 1965)

Ffynonellau

Monthly Repository, 1814, 203, 323

The Presbyterian Fund and Dr. Williams' Trust (1885), 69

Llawysgrifau W. J. Evans yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn LI.G.C

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734635](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

